Undeb Aber
Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
13eg mis Mehefin 2024
Wyneb-yn-wyneb a dros Teams

Yn bresennol
Bayanda Vundamina (BV) - Llywydd a Chadeirydd
Ryan Beasley (RB) - Ymddiriedolwr Allanol ac Is-Gadeirydd
Elain Gwynedd (EG) - Swyddog Diwylliant Cymreig Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwr
Helen Cooper (HC) - Swyddog Llesiant a Swyddog-Ymddiriedolwr
Tiff McWilliams (TMW) - Swyddog Cyfleoedd i Fyfyrwyr ac Ymddiriedolwr
Anna Simpkins (AS) - Swyddog Materion Academaidd
Alan Roberts (AR) - Ymddiriedolwr Allanol Dr Debra Croft (DC) - Ymddiriedolwr Allanol Dan Fow (DF) - Ymddiriedolwr Allanol
Tom Molyneux (TMO) - Myfyriwr-Ymddiriedolwr

Emily Morgan - Darpar Swyddog Llesiant (yn Arsylwi)
Will Parker - Darpar Swyddog Materion Academaidd (yn Arsylwi)

Yn Bresennol
Trish McGrath (TMcG) - Prif Weithredwraig
Annmarie Evans (AE) - Pennaeth Pobl a Llesiant (Cofnodwr)

GWEINYDDU'R CYFARFOD

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb Cafwyd ymddiheuriadau gan Jon Allsop ac Andra Jones.

2. **Datgan Buddiannau** Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.
3. Cofnodion y Cyfarfod cynt Cymeradwywyd Cofnodion y Cyfarfod cynt a gynhaliwyd 25ain Ebrill 2024.
   Cymeradwywyd

4. **Materion sy'n Codi**
   Dim Materion sy'n Codi.
   Cofnodwyd

STRATEGAETH

5. **Cyllid: Adroddiad Rheoli**
   Esboniodd Trish y cyfrifon rheolaeth hyd at fis Mai 2024. Mae TM am gadarnhau a gawn ni addysg hyfforddi bob blwyddyn a sicrhau bod

Pwynt Gweithredu

6. **Diweddariad ar Gyllid Undeb Aber ac arian y Brifysgol**
   Rhoddwyd diweddariad llafar ar gael sêl bendith Cyllid y Brifysgol gan TM. Esboniodd TM er nad oes newyddion pellach ynglŷn â chymeradwyo'r gyllid, cafodd gyfarfod cadarnhaol gyda'r Pennaeth Cyllid ac o ystyried fod gennym ddigon wrth gefn, gofynnodd i'r Bwrdd dderbyn y gyllid fel y mae ac i aros beth ddaw o ochr y Brifysgol. Ni chaiff cyflogau eu codi yn unol â Chostau Byw nes bod y Brifysgol yn cadarnhau.
   Cymeradwywyd
7. **Newid Cyflenwr i Macron o Surridge**
   Gofynnodd TM i'r Bwrdd gymeradwyo newid cyflenwr ein dillad chwaraeon ac esbonio y cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'n haelodaeth a Macron gafodd drwch y bleidlais. Cytundeb o 5 mlynedd fydd hi, gyda chyfle i'w adolygu hanner ffordd.
   Cymeradwywyd
8. **Diweddariad Masnachol**
   Diweddarodd TM y Bwrdd ar drafodaethau ynghylch y diddordeb mewn chwilio am gyfleoedd masnachol ac roedd y Bwrdd yn gytûn ei fod yn hapus i'w ystyried ymhellach.
   Cymeradwywyd
9. **Adroddiad y Brif Weithredwraig**
   Darparodd TM grynodeb byr o'r adroddiad a gyflwynodd gynt. Mae'r adroddiad yn ymdrin â Phobl, Cyllid ac Adnoddau, Cyfleoedd a Gwirfoddoli, Llais y Myfyrwyr, Cyngor a Llesiant a Dathlu. Cadarnhaodd TM ei bod am rannu adroddiad y pen saer unwaith ei fod ar gael.
   Pwynt Gweithredu - TM

10. **Cynnydd Dangosyddion Perfformio Allweddol** Cyflwynodd TM ddiweddariad ar gynnydd Dangosyddion Perfformio Allweddol i'r Bwrdd. Y prif fater i'w amlygu yw fod y ffigurau gwirfoddoli wedi dychwelyd i'w ffigurau cyn covid, braf yw gweld.
    Cofnodwyd
11. **Adroddiad y Swyddogion**
    Llywydd - gweithio ar ymgyrch wythnos fyd-eang, wythnos gydraddoldeb hiliol, llawer o gyfarfodydd Pwyllgor y Brifysgol yn ogystal â chymryd rhan yn nghyfweliadau'r Brifysgol ar gyfer COO.

    Swyddog Cyfleoedd - Dathlu, gwobrau Codi a Rhoddi, panelau cwyno, Aber 7s, Tiff yn trio'r Gromen, Cod Ymddygiad Grwpiau Myfyrwyr i'w lansio fis Medi, hyfforddiant pwyllgorau ar-lein cyntaf, newid cyflenwr nwyddau.
    Swyddog Llesiant - Wythnos Ysgogi Iechyd Meddwl, Grŵp Ymgynghori Myfyrwyr ar sail Trawma, Wythnos Sgwrsio Genedlaethol, trosglwyddo'r awenau, digwyddiad balchder posib ar ddiwedd y mis. Cod Ymddygiad, gwaith polisi cydsyniad hanfodol gyda'r Gwasanaethau Myfyrwyr a Gethin, bod yn rhan o banel Gweithred Dros Dro.
    Swyddog Academaidd - Senedd yn gymwys i basio polisi a chaiff ei adolygu ymhen blwyddyn. Wedi cyfrannu i benodi Cofrestrydd Academaidd newydd, cydweithredu ar adroddiad yr Undeb, maent wrthi'n agolygu materion academaidd, panel QAA, wythnos anableddau dysgu - wedi gweithio gyda'r Gwasanaethau Myfyrwyr i wneud fideos yn ymwneud ag anableddau a diweithdra, a lleddfu straen yr arholiadau.
    Swyddog Diwylliant Cymreig a Llywydd UMCA - wedi cystadlu yn yr eisteddfod genedlaethol, wythnos lwyddiannus ar gyfer diwedd y flwyddyn a ddenodd dyrfa dda, UMCA 50 y dydd Sadwrn yma,

digwyddiad Codi a Rhoddi £3,633.73 , Sesiwn Holi ac Ateb gyda 5 llywydd cynt, cyngerdd gan 5 band fuodd yn aelodau UMCA.
Cofnodwyd

12. Adroddiad Ansawdd Academaidd

Gofynnodd TM i'r Bwrdd nodi'r adroddiad blynyddol a chytuno y dylai'r adroddiad gael ei ysgrifennu gan yr Undeb cyfan a'i arwain gan y Swyddog Materion Academaidd yn hytrach na rhoi'r baich ar y Swyddog Academaidd yn unig.
Cofnodwyd a chytunwyd

13. Polisi ar y rheini sy'n gadael gofal

Gofynnodd TM i'r Bwrdd gymeradwyo'r Polisi ar y Rheini sy'n gadael gofal a argymhellwyd gan Radar ac a ddarperir trwy ein hyswiriant Endsleigh.
Cymeradwywyd

14. Adroddiad y Bobl

Darparwyd Adroddiad y Bobl i'r Bwrdd ei nodi.
Cofnodwyd

15. Y Senedd

Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi cofnodion y Senedd a chadarnhau polisïau a basiwyd.
Cofnodwyd a Chymeradwywyd

16. Adroddiad yr Etholiadau

Nid oedd yr adroddiad ar gael ar hyn o bryd ond caiff ei anfon at yr ymddiriedolwyr ar ôl y cyfarfod.
Cofnodwyd

17. Diolchiadau a ffarwelio ag Ymddiriedolwyr

Diolchodd y Bwrdd i HC, AS a TM am eu cyfraniad a'u gwaith yn ystod eu hamser gyda ni fel Swyddogion/a neu Ymddiriedolwyr a dymuno'r gorau iddynt gyda'u prosiectau i ddod.

18. Dyddiad y Cyfarfod nesaf

Anfoniff AE wahoddiadau ar gyfer y set nesaf o gyfarfodydd at y flwyddyn academaidd 2024/25.